

“Yr un dagrau yw ein dagrau”

“Oherwydd ynddo ef yr ydym yn byw ac yn symud ac yn bod.” (adn. 28)

Beth am ddarlenn Actau 17:16–34 ac yna myfyrio

Rydym am aros gyda'r syniad fod agwedd meddwl falch yn ein perthynas â phobl o hil wahanol, yn ymosodiad ar yr egwyddorion hynny y mae'r Ysbryd yn ein dysgu. Rhaid i ni wynebu'r ffaith yma, gan waredu ein hunain o unrhyw agwedd haerllug fel hyn os ydym am wneud gwahaniaeth yn y dyfodol. Mae'r Eglwys am gyfnod maith wedi bod yn dawedog iawn wyneb yn wyneb â hiliaeth. Rhaid i ni ddelio â'r mater yma unwaith ac am byth os ydym am ddiogelu ein dyfodol.

Wrth deithio o amgylch y byd yn cyfarwyddo pobl mewn perthynas â chynghori Cristnogol, rwyf wedi darganfod rhywbeth rhyfeddol. Wedi i chi gloddio drwy y gwahaniaethau diwylliannol sydd rhwng pobl o wahanol genhedloedd, mae pob un yn y bôn yr un fath. Wrth siarad gyda meddyg yn yr India oedd â gradd mewn seicoleg, gofynnais iddo: “Beth yw seicoleg Indiaidd?” Atebodd, “Nid oes y fath beth a seicoleg Indiaidd. Mae yna ddiwylliant Indiaidd, ond mae seicoleg yr enaid yr un fath ymhobman.” Clywais sylwadau tebyg yn yr Affrig, yn y Dwyrain Pell, ac yn Ewrop. Does dim seicoleg Affricanaidd, does dim seicoleg Indiaidd, does dim seicoleg Tsieiniaidd, er bod yna wahaniaethau diwylliannol. Yn y bôn, mae pawb yr un fath. Yr un yw angen gŵr o'r Affrig a gŵr sydd yn byw yn y Gorllewin. Yr un gri sydd yn ei galon am gariad. Mae dynoliaeth yr un fath ymhobman. Yng ngeiriau un gŵr: “Yr un yw ein dagrau.”

Mae gan genhadwr o'r Affrig hanes am fachgen ifanc a ddaeth ato unwaith heb fawr o gefndir addysgol. Wedi iddo gael ei osod mewn ysgol breswyl, fe fu iddo arddangos gallu anghyffredin, gan ragori ar blant oedd yn llawer iawn hŷn nag ef. Nid oes y fath beth â phobl sydd oherwydd eu hil yn rhagori, neu sydd yn eilradd am fod eu hil yn llai gwerthfawr. Yr unig beth a geir yw pobl sydd wedi datblygu fel cenedl a phobl sydd heb ddatblygu fel cenedl. Peidiwch anghofio hyn.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Actau 16:22–40; 21:30–22:29

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fu i bobl newid eu hymddygiad tuag at Paul?
2. Sut bu i Paul ddefnyddio'i statws?

Gweddi

O Dad, rwy'n gofyn i ti weithredu'r fath lawdriniaeth ar fy nghalon i fel bod balchder ac ymffrost yn diflannu. Cyfranna iechyd ysbrydol i'm henaid. Cynorthwya fi wrthweithio grym pechod. Yn enw Iesu. Amen.